sir ddinbych denbighshire
Cyngor / County Council

**COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad y penderfyniad:**

19 Medi 2023

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

19 Medi 2023

**Penderfyniad:**

POLISI CASGLIADAU GWASTRAFF DIWEDDARAF 2023

I gymeradwyo'r Polisi Casgliadau Gwastraff wedi'i ddiweddaru fel ei fod yn gallu dod i rym.

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf wedi'i gynhyrchu gan y Gwasanaeth Gwastraff. Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru ar gyfer y gwasanaeth cyfredol i gadarnhau agweddau o gynnig y gwasanaeth, hefyd mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r model gwasanaeth newydd sydd heb ei weithredu hyd yma. Mae'r Polisi wedi'i rannu i wasanaeth cyfredol a gwasanaeth newydd.
Mae'r prif newidiadau i'r polisi cyfredol yn cynnwys cryfhau cyfrifoldebau / egluro'r polisi a'r newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth, fel a ganlyn:

a) Mae adrannau 1a ac 1b yn manylu ar amlder y gwasanaeth casglu ailgylchu a heb fod yn ailgylchu a'r math o gynwysyddion a ddefnyddir. Mae adran 2 yn ymwneud â chasgliadau amgen ar gyfer eiddo sy'n anaddas ar gyfer y gwasanaeth safonol. Mae adran 3 yn ymwneud â biniau cymunedol swmpus.

b) Mae adran 4 yn egluro'r gofyniad cyfreithiol yng Nghymru i ailgylchu gwastraff bwyd (o fis Hydref 2023 ymlaen). Mae adran 5 yn ymwneud â'r gwasanaeth casglu cyfarpar

electronig a thrydanol a’r gwasanaeth casglu batris.

c) Mae Adran 7 ‘cyflwyno’ ac Adran 8 ‘ffyrdd preifat heb eu mabwysiadu’ wedi’u hatgyfnerthu yn nhermau beth sy’n dderbyniol a’r hysbysiad ffurfiol o fannau casglu ar gyfer eiddo gyda mynediad wedi’i gyfyngu.

d) Mae adran 18 yn egluro’r gwasanaeth Gwastraff Hylendid nad yw’n Heintus o 2024 ymlaen.

e) Mae adran 22 yn amlinellu’r newidiadau i’r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Y penderfyniad yw cymeradwyo’r Polisi Casgliadau Gwastraff wedi’i ddiweddaru ar gyfer y gwasanaeth cyfredol a chytuno ar y polisi newydd o pan fydd y gwasanaeth newydd yn cael ei roi ar waith yn 2024.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i’w ddatgan

**Ymgynghoriad:**

Mae’r Bwrdd Prosiect wedi’i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Yr Amgylchedd a’r Economi (sy’n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau) ac yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect mae’n diweddaru ar y risg ac mae’r sefyllfa bresennol o ran costau yn cael eu cyflwyno i’w hadolygu a’u gweithredu fel bo’r angen. Mae’r Bwrdd wedi derbyn ac wedi cael y cyfle i roi sylw ar y Polisi Casgliadau Gwastraff.
Hefyd mae’r Polisi wedi’i ddosbarthu i’r Cabinet a Phwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mai/ Mehefin 2023. Mae’r Aelodau wedi cael cyfle i roi sylw ar y polisi a byddant yn cael cyfle pellach yn ystod y broses gwneud penderfyniad dirprwyedig.

**Yr awdurdod i ddirprwyo’r penderfyniad i’r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.